# Dwy Iaith – I Be'?



**Mae'r rhan fwyaf o bobl y byd yn defnyddio o leiaf dwy iaith yn eu bywydau bob dydd. Beth yw manteision dwyieithrwydd?**

- **Cyflogadwyedd:** mae dwyieithrwydd yn cynyddu dy gyflogadwyedd ac yn agor drysau i gyfleoedd newydd i ti ym myd gwaith.
- **Ariannol:** mae pobl ddwyieithog yn ennill cyflog uwch ar gyfartaledd. Mae mwy a mwy o angen am unigolion dwyieithog yn y cyfryngau, marchnata, twristiaeth, bancio, y gyfraith, addysg, iechyd, TG, busnes a llawer o feysydd eraill.
- **Cwricwlwm:** mae pobl ddwyieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus yn yr ysgol a'r coleg, ac yn fwy tebygol o allu dysgu iaith ychwanegol.
- **Cyfathrebu:** mae dwyieithrwydd yn rhoi'r gallu i ti gyfathrebu gyda mwy o bobl mewn llawer o sefyllfaoedd amrywiol.
- **Gwasanaeth Cwsmer:** galli di wneud profiad cwsmeriaid yn un mwy pleserus – mae cwsmeriaid yn fwy gwerthfawrogol o gwmnïau sy'n cynnig dewis iaith.
- **Diwylliannol**: mae dwyieithrwydd yn agor drysau i ddau ddiwylliant gwahanol, ac mae pobl ddwyieithog yn aml yn fwy parod i barchu gwahaniaethau mewn diwylliannau.
- **Sgiliau Gwybyddol:** mae dwyieithrwydd yn cryfhau'r cyhyrau gwybyddol – mae pobl ddwyieithog yn tueddu i fod yn fwy creadigol, hyblyg a sensitif, maent yn fwy meddylgar, gyda meddwl mwy agored, ac maent hefyd yn ei chael yn haws canolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau ar unwaith.
- **Datblygu Cymeriad:** mae dwyieithrwydd yn dueddol o godi hunanhyder a hunan-barch unigolyn, ac mae pobl ddwyieithog yn tueddu i fod â mwy o gyswllt â'u hetifeddiaeth.
- **Iechyd:** mae ymchwil yn dangos fod dwyieithrwydd yn gohirio dechreuad dementia a symptomau eraill clefyd Alzheimer.

*Yn cefnogi addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-14*

*Supporting Welsh-medium and bilingual education in the post-14 sector*

**Sgiliaith**

# Two Languages – What's The Point?



**The majority of people across the world use at least two languages in their everyday lives. What are the advantages of bilingualism?**

- **Employability:** bilingualism increases your employability and opens doors to new opportunities in employment.
- **Financial:** bilinguals earn more on average. There is a growing need for bilinguals in media, sales, marketing, tourism, banking, law, education, health, IT, business and many other fields.
- **Curriculum:** bilinguals tend to achieve more in school and college, and are more likely to be able to learn an additional language.
- **Communication:** bilingualism offers the ability to communicate with a wider range of people in a variety of circumstances.
- **Customer Services:** you can make customers' experiences more pleasurable – customers have a greater appreciation of companies that offer language choice.
- **Cultural:** bilingualism opens doors to two different cultures, and bilinguals tend to be more respectful of cultural difference.
- **Cognitive Skills:** bilingualism strengthens the cognitive muscles – bilinguals tend to be more creative, flexible and sensitive, and seem to think more freely and more elaborately, whilst also finding it easier to focus on a range of tasks at the same time.
- **Character Development :** bilingualism seems to raise self-esteem and self-respect, and bilinguals tend to have close links with their heritage.
- **Health:** research shows that bilingualism delays the onset of dementia and other symptoms of Alzheimer's disease.

Yn cefnogi addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-14

Supporting Welsh-medium and bilingual education in the post-14 sector

Sgiliaith

## Adnoddau Defnyddiol Wrth Astudio'n Ddwyieithog

## Useful Resources Whilst Studying Bilingually

Geiriadur yr Academi
The Welsh Academy English-Welsh Dictionary
techiaith.bangor.ac.uk/GeiriadurAcademi

Geiriadur Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David Dictionary
www.geiriadur.net

Cysill Ar-lein (Gwirydd Sillafu a Gramadeg)
(Welsh spelling and grammar check)
cysgliad.com/cysill/arlein

Y Termiadur Addysg
(Education Terminology)
www.termiaduraddysg.org
+ Ap Am Ddim / Free App: iPhone, iPad, Android

Cysgair BBC (Geiriadur a Rhedeg Berfau)
BBC Welsh Dictionary and Verb Variations
bbc.co.uk/cymru/geiriadur

Ap Geiriaduron
Welsh-English/English-Welsh Dictionary App
Am Ddim / Free: iPhone, iPad, Android

Gweiadur (geiriadur, diffiniadau, treigladau, sain a llawer mwy)
Gweiadur (dictionary, definitions, mutations, audio and much more)
www.gweiadur.com

Hwb: Canfod, Gwneud, Defnyddio, Rhannu
Hwb: Find, Make, Use, Share
hwb.wales.gov.uk

Y Porth Termau
(Terminology Dictionary)
termau.org